# Plant gyda Chymhwyster Anabledd ar gyfer Cefnogaeth

## Cyflwyniad

Mae gofyn i awdurdodau lleol asesu a yw plentyn angen gofal a chefnogaeth. Ystyrir fod angen gofal a chefnogaeth ar blentyn anabl, ar ben, neu yn lle'r gofal a chefnogaeth a ddarperir gan deulu'r plentyn. Mae hyn yn golygu y bydd angen i awdurdod lleol, yn y rhan fwyaf o achosion, asesu anghenion plentyn anabl,

Mae'r meini prawf ar gyfer y Tîm Plant Anabl yn sefydlu'r trothwy ble bydd atgyfeiriad mewn perthynas a phlentyn ag anabledd yn cael ei dderbyn ar y sail bod y plentyn angen asesiad gofal cymdeithasol arbenigol.

Bydd y Tîm Plant Anabl yn cynnig asesiad gofal cymdeithasol arbenigol ble mae'r anghenion cymhleth canlynol yn bod-

- Anabledd corfforol difrifol neu ddwys
- Anabledd synhwyraidd sylweddol neu ddwys
- Cyflyrau cynyddol ac anghenion meddygol dwys
- Salwch sy'n byrhau bywyd
- Epilepsi sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd a datblygiad y plentyn
- Oedi sylweddol ar ddatblygiad a/neu ymddygiad heriol sy'n tarddu o anabledd
- Lefel o awtistiaeth sy'n effeithio ar weithrediad dydd i ddydd
- Bydd plant â mwy nag un anhawster cymedrol gyda dysgu, cyfathrebu, clyw, defnydd dwylo a mudoledd neu ofal personol hefyd yn cael eu hystyried.

## Meini Prawf yn Ymarferol

Bydd plentyn anabl yn gymwys ar gyfer gwasanaeth os ydyn nhw'n cwrdd ag un neu fwy o'r meini prawf canlynol

- Rhaid bod yna ddiagnosis ffurfiol
- Mae'r plentyn eisoes wedi cael Asesiad Gwybyddol a ddangosodd anabledd dysgu dwys, difrifol neu gymedrol (h.y. IQ o dan 70 ynghyd â gallu i weithredu wedi'i leihau)
- Mae'n mynychu ysgol arbennig (e.e. Crownbridge)
- Mae ganddo/i ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer anghenion dysgu difrifol ac mae'n mynychu math arall o ysgol
- Mae'n mynychu ysgol ar gyfer angen dysgu arbennig cymedrol neu ysgol yn y briff ffrwd neu goleg ond mae ganddo/i fwy nag 1 anabledd cyfathrebu, synhwyraidd neu gorfforol neu anawsterau corfforol neu anawsterau meddygol sydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith sylweddol ar fywyd dydd i ddydd ac yn angen cefnogaeth a goruchwyliaeth cyson a pharhaus trwy gydol y dydd neu mae'n ddibynnol ar amgylchedd wedi'i addasu neu dechnoleg arbennig
- Mae ganddo/i nam sylweddol ar y golwg neu'r clyw neu'r ddau.

## Cyfraniad Therapydd Galwedigaethol:

Bydd Therapydd Galwedigaethol yn ymwneud â'r plentyn

- Os yw plentyn/person ifanc yn dangos un neu fwy o'r anghenion cymhleth a restrir.
- Os oes angen asesiad ThG os yw teulu'n bwriadu symud cartref ac mae ganddyn nhw blentyn ag anghenion cymhleth.
- Os yw plentyn angen ymyrraeth tymor byr, fel darparu cyfarpar ar ôl llawdriniaeth/rhyddhau o'r ysbyty.
- Os oes gan blentyn anabledd corfforol/ anabledd dysgu sylweddol/ Anhwylder y Sbectrwm Awtistaidd sylweddol sydd angen asesiad ar gyfer cyfarpar/addasiad i gartref/newid cartref
- Os yw plentyn yn cael ei godi/chodi neu'n angen asesasid risg Trafod â Llaw.

## Nid yw'r canlynol yn rhan o'r meini prawf cymhwyster:

- Anhwylderau iechyd meddwl oni bai eu bod yn gysylltiedig ag anabledd dysgu, corfforol neu gyfathrebu cynradd
- Problemau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol nad sy'n gysylltiedig ag anabledd
- Diagnosis o ADCG neu ADC oni bai ei fod yn gysylltiedig ag anabledd dysgu, corfforol neu gyfathrebu sylweddol ac arhosol

Penderfynir cymhwyster ar sail y wybodaeth a derbynnir gan rieni/gofalwyr, pobl broffesiynol mewn iechyd ac addysg ac arsylwadau ac asesiadau gan y Tîm Plant Anabl.

## Ein Manylion cyswllt

*Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:*
***Y Tîm Plant Anabl***
*Ffôn: 01495 762200*
*E-bost: your.call@torfaen.gov.uk*